


“Yr Hwn Y Mae'r Mab Ganddo..”

Stori Ar Gyfer Y Pasg

Flynnydoedd yn ôl roedd yna ddydd cyfoethog iawn a chanddo un mab. Roedd y dyn yn meddwl y byd am ei fab, ac roedd y ddau yn rhannu diddordeb mewn casglu gwaith celf prin ac enwog. Ar ôl rhai blynnydoedd roedd yn eu meddiant gasgliad gwerth miliynau o bunnoedd.

Yn drist iawn daeth rhyfel a bu rhaid i'r mab fynd i faes y gad ac yno colodd ei fywyd yn achub milwr arall. Peth amser ar ôl hynny daeth cnoc disymwth ar ddrws y cartref ble roedd y tad yn byw. Yno roedd y milwr wnaeth ei fab achub pan gafodd ei ladd. Roedd y ddau wedi bod yn ffrindiau agos ac fel un oedd yn hoffi arlunio roedd wedi peintio llun o'i gyfaill.



Cyflwynodd y llun yn rhodd i'r tad ac fe'i derbyniodd yn llawen a'i osod mewn man anrhydeddus yn ei gartref yng nghanol y lluniau gwerthfawr oedd yn ei feddiant.

Rhai blynnydoedd yn ddiweddarach bu farw'r tad ac fe aeth y newyddion ar led bod ei holl eiddo yn mynd i gael ei werthu mewn ocsiwn. Daeth pobl o bell ac agos ynghyd i'r ocsiwn ac yn eu plith roedd yno arbenigwyr o'r byd celf gyda'i llygaid ar brynu'r lluniau gwerthfawr oedd ar werth.

Dechreuwyd yr ocsiwn gyda llun nad oedd yn werthfawr nac enwog, sef y llun o'r mab. Doedd neb yn barod i gynnig amdano nes i lais bach yn y cefn ddweud ei fod yn barod i roi \$10. Doedd gan neb arall ddiddordeb ac felly gwerthwyd y llun, a'r person wnaeth ei brynu oedd y milwr wnaeth ei beintio. Gyda hynny, dywedodd yr arwerthwr bod yr ocsiwn ar ben. Er mawr siom i'r gynulleidfa darllenodd

nodyn oedd yn rhan o'r ewyllys oedd yn dweud bod y person byddai'n cymryd y mab yn cael y cyfan - yr etifeddiaeth oedd werth miliynau!



Dwn i ddim os yw'r hanes hwn yn wir neu beidio ond mae'n eglureb dda o neges yr efengyl. Mae Iesu y Mab wedi rhoi ei fywyd drosom ni. Talwyd ein holl ddyledion ganddo ar y groes, ac i bwy bynnag sy'n edifarhau gan gredu ynddo mae yna etifeddiaeth na all arian ei brynu, sef maddeuant rhad a bywyd tragwyddol.

Meddai Ioan yn ei lythyr cyntaf: “*Y hwn y mae'r Mab ganddo, y mae'r bywyd ganddo; yr hwn nad yw Mab Duw ganddo, nid yw'r bywyd ganddo.*” (1 Ioan 5:12)

Y Bedyddwyr Yn Dathlu

Ar ddydd Sadwrn Mehefin 17eg bydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn dathlu 150 o flynyddoedd ac mae gwahoddiad agored i bawb i ddod i'r parti! Trefnir digwyddiad arbennig i'r teulu cyfan yng Nghanolfan Yr Halliwell, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin.

Bydd yno ddigon o weithgareddau cyffrous i bobl

o bob oed gan gynnwys rhaglen arbennig i blant a phobl ifanc yn y Neuadd Chwaraeon. Ymhlith yr atyniadau bydd sioe arbennig gan Rosfa'r Consuriwr, addoliad cyfoes gyda Martyn Geraint, gemau, “zorbiau”, gweithgareddau celf a chrefftau, Parti Pitsa i'r ieuencid - a'r cyfan yn rhad ac am ddim! (10:00 - 4:30)



Martyn Geraint fydd y gwestai gwadd yn yr oedfa gyfoes. Bydd e hefyd yn ymddangos mewn sioe gyda Rosfa'r Consuriwr.

Yn gwasanaethu eglwysi Sir Caerfyrddin.

Tymor Y Gwanwyn 2017

Buletin Newyddion a Gweddi M.J.C.



Swm ein dyled fawr a dalodd

ac fe groesodd filiau'r ne';

trwy ei waed, inni caed

bythol heddwch a rhyddhad

(Dafydd Jones 1711-1777).

Yn y rhifyn hwn:

Chwaraeon 2

Clwb Gwyliau
Llangennech 3

Noson I Bobl Ifanc 3

Holi Guto 3

Beiblau I Blant Yn
Rhydaman 4

Dyddiadau I'w Nodi 4

Jôc 4

Y Gornel Weddi 4



Manylion pellach ar gael ar
www.dathliadybedyddwyr.cymru
CROESO CYNNES I BAWB.

Chwaraeon



Hope - Siloh Pontarddulais.
Buddugwyr pêl droed cynradd.



Tabernacl Hendygywyn Ar Daf a Bethlehem Pwll Trap
Buddugwyr pêl droed uwchradd.

Ar ddydd Sadwrn Ionawr 28ain yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin cynhaliwyd cystadlaethau pêl droed a phêl rwyd Ysgolion Sul a chlybiau Cristnogol sir Gaerfyrddin. Mae'r digwyddiad hwn o hyd yn bwysig yng nghalendr yr Ysgolion Sul ac eleni cafwyd yr ymateb gorau ers sefydlu M.I.C. gyda 28 o dimoedd yn cofrestru. Golyga hyn bod tua 140 o blant ac ieuenctid wedi cymryd rhan ac fel arfer daeth tyrfa dda i gefnogi.

Dyma'r timoedd a fu'n fuddugol ar y dydd:

Pêl Droed Cynradd

1af: Hope - Siloh, Pontarddulais

2ail: Clwb M.A.M. Brynaman

Pêl Droed Uwchradd:

1af: Bethlehem, Pwll Trap / Tabernacl Hendy-gwyn Ar Daf

2ail: Siloam, Pontargothi

Pêl Rwyd Gynradd:

1af: Priordy / Penuel Caerfyrddin

2ail: Capel Newydd, Llanddarog

Pêl Rwyd Uwchradd:

1af: Hope - Siloh, Pontarddulais

2ail: Capel Seion, Drefach

Bu'n ddiwrnod penigamp gyda gemau cyffrous a phawb wedi mwynhau.

Am ragor o luniau gwelir

www.micsirgar.org



Priordy a Penuel Caerfyrddin
Buddugwyr pêl rwyd cynradd.



Hope - Siloh Pontarddulais.
Buddugwyr pêl rwyd uwchradd.

Clwb Gwyliau Llangennech

Yn ystod hanner tymor Chwefror trefnwyd Clwb Gwyliau Cristnogol yn Ysgol Iau Llangennech ar gyfer plant blynyddoedd 2 - 6. Bu'r Clwb yn cyfarfod o'r dydd Llun tan y dydd Mercher o 10:30 - 12:30. Cafodd y rhai a ddaeth ynghyd amser wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gemau, gweithgareddau a chrefft.

Yn ganolbwynt i'r cyfan oedd y stori Feiblaidd ac fe wnaeth y plant ymateb yn dda i'r cyflwyniadau bywiog a gwledol a gafwyd.

Noddwyd yr achlysur gan Henaduriaeth Myrddin a bwriadir cynnal digwyddiad tebyg yn Rhydaman adeg Y Pasg. Am ragor o luniau o'r Clwb Gwyliau ewch i www.micsirgar.org

Dyma i chi gip olwg o'r plant yn mwynhau rhai o'r gweithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer yn y Clwb Gwyliau. Yn y llun canol isod mae'r plant yn dal gafael mewn murlun a grewyd ganddynt yn seiliedig ar yr hanes Beiblaidd. Yn y rhes gefn mae rhai o'r gwirfoddolwyr caredig fu'n gofalu amdanynt.



Noson I Bobl Ifanc



Arbrawf newydd yng nghalendr gweithgareddau M.I.C. oedd cynnal noson hwyl i bobl ifanc, a hynny mewn cydweithrediad â Choleg Y Bala. Cyfarfu'r bobl ifanc yn gyntaf oll yn y "Laser Station" yng Nghaerfyrddin ble cawsant hwyl fawr yn chwarae dwy gêm laser gyda bwyd yn dilyn. Ar ôl hynny buont yn "Yr Atom", ble bu rhai o ieuencid Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yn arwain sesiwn pwrpasol, llawn hwyl gyda nifer o gemau oedd wrth fodd y bobl ifanc. Am ragor o luniau gwelir www.micsirgar.org

Holi Guto

Mae'r Parchg. Guto Llywelyn yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn nalgylch Hendy-gwyn Ar Daf ac mae'n ymweld yn gyson gydag ysgolion yr ardal. Ar nifer o adegau mae wedi cael cwmni Tecwyn Y Tedi mewn gwasanaethau boreol. Bîm yn holi Guto pam oedd yn mynd â Tecwyn i mewn i'r ysgolion? Dyma oedd ganddo i ddweud: "Mae'r plant wrth ei bodd bob tro mae Tecwyn y Tedi yn dod i'r gwasanaeth. Mae yna gyffro mawr yn yr ystafell pan ddaw trwy'r drws. Mae'r plant yn cysylltu'r Ysgol Sul gyda Tecwyn a gyda hwyl."

Oes yna blant newydd wedi dod i'r Ysgol Sul fel canlyniad i dy ymdrechion di a Tecwyn?

"Fe fuom yn ffodus iawn i gael chwech o blant newydd yn yr Ysgol Sul yr haf diwethaf. Mae hyn wedi codi ein calonnau ni gyd fel eglwys."

Sut wnaeth chwaraeon M.I.C. dy helpu i genhadu ar ran yr Ysgol Sul?

Mae chwaraeon M.I.C. yn gyfle gwyh i geisio cael aelodau newydd i'r Ysgol Sul. Rydym yn dweud wrth y plant y gallant gystadlu yn chwaraeon M.I.C. dim ond iddynt ddod i'r Ysgol Sul. (Gyda llaw fe wnaeth Tecwyn gymerid cic o'r smoty yn erbyn y Prifathro a sgorio!) Diolch i Guto am ei sylwadau.



Parchg Guto Llywelyn a Tecwyn yn ystod ymweliad ag ysgol leol.

Nigel Davies,
Swyddog Plant ac Ieuenctid M.I.C.,
Llain Deg,
Llangynin,
San Clêr,
Caerfyrddin SA33 4JY

Rhif ffôn: (01994)230049
E - bost: mic@uwclub.net

Dyddiadau i'w Nodi

BWRLWM BRO'R YSGOLION SUL:

Mai 7: Neuadd Gellimanwydd, Rhydaman (10:30)

Mai 21: Neuadd Bethesda, Tymbll (10:30)

Mehefin 11: Yr Atom, Caerfyrddin. (10:30)

Mehefin 18: Canolfan Gymdeithasol Llangadog (10:30)

BEDYDDWYR YN DATHLU 150 MLYNEDD

Mehefin 17: Canolfan Yr Halliwell (10:00 - 4:30)

MABOLGAMPAU DAN DO

Mehefin 21: Mabolgampau Gorllewin Y Sir.

Mehefin 29: Mabolgampau Dwyrain Y Sir

Gorffennaf 12: Mabolgampau (Rowndiau Terfynol Y Sir)

SUL SBESIAL Gorffennaf 9: Neuadd Pontyberem 10:30

CWRS IEUENCTID: Gorff 31 - Awst 4 Coleg Y Bala

SOULED OUT: Awst 19 - 24 Coleg Y Bala

JOIO GYDA IESU (OEDFA FLYNYDDOL M.I.C.)

Tachwedd 5: Bethesda, Llangennech (2:30)

TAITH STORI'R MIS

Medi 24 - Tachwedd 19. Suliau pan fyddaf ar gael i ymweld ag eglwysi i arwain oedfaon teuluol.

Y GORNEL WEDDI



“Dyma pa mor hyderus gallwn ni fod wrth agosáu at Dduw: mae e'n gwranddo arnon ni os byddwn ni'n gofyn am unrhyw beth sy'n gyson â'i fwriad e.” (1 Ioan 5:14).

Buaswn yn gwerthfawrogi eich gweddïau am y pwyntiau canlynol:

DIOLCH.....

- am ymateb da i'r chwaraeon ac am yr hwyl a gafwyd gan y rhai fu'n cymryd rhan
- am lwyddiant y Clwb Gwyliau Cristnogol yn Llangennech
- am y cyfle a gafwyd i ddsbarthu Beiblau i blant ysgolion Rhydaman.

DEISYFWN FENDITH DUW

- ar Glwb Gwyliau Cristnogol Y Pasg yn Rhydaman
- ar daith Bwrlwm Bro. Gweddïwn bydd y plant yn mwynhau ac yn meithrin ffydd yn Iesu Grist.
- ar y dathlu gyda'r Bedyddwyr ac oedfa'r Sul Sbesial o dan arweiniad Dr Owain Edwards o Goleg Y Bala.
- ar y trefniadau a'r cystadlu ym mabolgampau'r Ysgolion Sul a chlybiau Cristnogol.
- ar y bobl ifanc fydd yn mynychu'r Cwrs Ieuenctid a Souled Out yng Ngholeg Y Bala.

Meddai Martin Luther, *“Mae ceisio bod yn Gristion heb weddio fel ceisio byw heb anadlu.”*

Beiblau I Blant Ysgolion Rhydaman

Mae ar hyn o bryd 6 o glybiau plant Cristnogol cyd enwadol yn bodoli yn sir Gaerfyrddin, wedi ei ffurfio o dan gynllun strategaeth Henaduriaeth Myrddin ac mewn cydweithrediad â M.I.C. Mae'r clybiau yn ceisio meithrin perthynas agos gydag ysgolion lleol. Un ffordd o wneud hyn yw cyflwyno Beiblau plant i'r disgyblion, ac yn ddiweddar bu Clwb J.A.M. Rhydaman yn dosbarthu copiau o'r "Beibl I Blant" i ddisgyblion blwyddyn 5 yn Ysgol Gymraeg Rhydaman; Ysgol Bro Banw ac Ysgol Parcyrhun. (Sylwch fod Tecwyn Y Tedi hefyd wedi bod yn rhoi help llaw!).



Disgyblion blwyddyn 5 Ysgol Parcyrhun



Disgyblion Ysgol Gymraeg Rhydaman



Cynrychiolwyr blwyddyn 5 o Ysgol Bro Banw

Jôc



Daeth plentyn bach adre o'r Ysgol Sul wedi derbyn gwers ar y Creu, ac yn ôl ei arfer aeth i'w ystafell i newid ei ddillad. Yna daeth i lawr o'r llofft a gofyn i'w fam, **“Ydy hi'n wir fod Duw wedi creu'r dyn cyntaf allan o ddwst?”** **“Ydy”,** meddai ei fam. **“Dyna mae'r Beibl yn ddweud.”** Holodd y bachgen ymhellach, **“Ydy hi'n wir ein bod yn dychwelyd i ddwst ar ôl i ni farw?”** **“Ydy”,** atebodd ei fam. **“Mae'r Beibl yn dweud hynny hefyd.”**

Roedd y bachgen yn gyffrous iawn i glywed hyn. Dywedodd wrth ei fam, **“Dere lan i'r llofft gloi ac edrycha o dan y gwely. Mae rhywun naill ai ar fin dod i'r byd neu yn gadael!”**

